

# Pecyn Cymorth Gwerthuso

## Awgrymiadau Gwych: arolygon a chwisiau

Cyhoeddwyd 10 Tachwedd 2023

Gwneud synnywr  
o'r cyfryngau



# Cynnwys

<b>Awgrymiadau Gwych: Arolygon a chwisiau .....</b>	<b>2</b>
Cyflwyniad .....	2
Y prif faterion .....	3
Dewis eich methodoleg .....	3
Dadansoddi .....	5
<b>Arolwg enghreifftiol .....</b>	<b>5</b>
Adran 1: Cyflwyniad a gwybodaeth gefndir .....	5
Adran 2: Eich meddyliau am dwyllwybodaeth, camwybodaeth a chynnwys ar-lein.....	6
Adran 3: Effaith wedi'i hunan-adrodd / canlyniadau anfwriadol .....	8
Adran 4: Prawf gwrthrychol o sgiliau / gwybodaeth.....	9
Adran 5: Adborth.....	10
<b>Pethau i'w gwneud a phethau i beidio â'u gwneud .....</b>	<b>11</b>
Pethau i'w gwneud:.....	11
Pethau i beidio â'u gwneud:.....	11

# Awgrymiadau Gwych: Arolygon a chwisiau

## Cyflwyniad

Defnyddir arolygon a chwisiau yn aml i gasglu data gan gyfranogwyr mewn rhaglenni llythrennedd cyfryngau er mwyn gwerthuso effaith yr ymyriad a darganfod beth mae'r cyfranogwyr yn meddwl y gellid ei wella. Gall arolygon a chwisiau gynhyrchu data i ddangos effaith ymyriad, tra gellir defnyddio arolygon hefyd i gael dealltwriaeth ddyfnach o brofiad eich cyfranogwyr o gymryd rhan.

Mae defnyddio arolygon yn caniatáu i chi gasglu data gan nifer cymharol fawr o bobl (o gymharu â dulliau eraill sy'n cymryd mwy o amser, megis cyfweiliadau) felly gallant helpu i sicrhau sampl cynrychioladol. Os ydych yn sefydlu grŵp rheoli, gellir defnyddio data arolwg o bob un i ddangos a yw ymyriad wedi cael effaith arwyddocaol o safbwynt ystadegol ar y cyfranogwyr.

Bydd llawer o ymarferwyr yn arolygu cyfranogwyr (neu'n cynnal cwis) cyn ac ar ôl ymyriad er mwyn canfod unrhyw newid yn eu hagweddau, gwybodaeth neu sgiliau perthnasol. Gellir defnyddio arolwg cyn ymyriad er mwyn sefydlu gwaelodlin a gellid gofyn yr un cwestiynau ar ddiwedd yr ymyriad. Gallech hefyd ailadrodd yr arolwg yn nes ymlaen (e.e. dri neu chwe mis yn ddiweddarach), er mwyn casglu data hydredol. Mae'n werth sicrhau eich bod yn gallu cysylltu'r atebion yn ôl i gyfranogwyr unigol er mwyn i chi allu canfod ymatebion pa unigolion sy'n newid (ac a oes rhai nad ydynt yn newid).

Mae rhai ymarferwyr yn dewis cyflwyno cwestiynau sydd wedi'u cynllunio er mwyn profi gwybodaeth neu sgiliau cyfranogwyr, fel cwis y gellir, er enghraifft, ei gwblhau fel rhan o weithdy – ar bapur neu ar-lein.



---

## Y prif faterion

- Gall fod yn anodd sicrhau bod arolygon yn cael eu cwblhau: mae rhai cynulleidfaoedd yn cael anhawster i gwblhau holiaduron (er enghraifft, plant iau neu bobl â lefelau llythrennedd isel) ac efallai bod eraill yn brin o amser a chymhelliant.
- Byddwch yn ymwybodol o duedd ymatebion, sy'n golygu mai dim ond y rhai sydd ag adwaith cadarnhaol neu negyddol cryf i'r ymyriad sy'n cwblhau'r arolwg.
- Gan fod data arolygon yn cael eu hunan-adrodd, mae rhai cyfyngiadau, er y gellir lleihau'r rhain os byddwch hefyd yn ymgorffori cwis / prawf o wybodaeth.
- Gan ddibynnu ar faint eich ymyriad a'ch cynulleidfa darged/cynulleidfaoedd targed, gallech ystyried creu gwahanol arolygon ar gyfer gwahanol fuddiolwyr.
- Os yw eich cyfranogwyr yn debygol o gael mynediad i'r rhyngwyd (e.e. drwy ffôn symudol neu yn ystod y gweithdai), bydd gofyn iddynt gwblhau'r arolwg ar-lein yn lleihau'r amser sydd ei angen i fewnbynnu a glanhau data

---

## Dewis eich methodoleg

Fel y nodwyd uchod, gallwch gynnal cwis neu arolwg mewn nifer o wahanol ffyrdd: ar-lein, ar bapur neu drwy ddefnyddio dulliau eraill megis ffôn/wyneb yn wyneb neu hyd yn oed neges SMS/testun. Dyma ychydig o bethau y dylech eu hystyried.

1. **Beth fydd hawddaf i'ch cyfranogwyr?**  
Meddylwch pa mor dda mae eich cynulleidfa yn gallu darllen a pha mor hyderus fyddent ar-lein. Os gallant gwblhau arolwg ar-lein mae'n debyg mai dyma'r ateb gorau, ond gallwch hefyd ystyried gwneud yr arolwg yn fwy hygyrch drwy gynnig ei ddarllen i'r cyfranogwr. Cofiwch, fodd bynnag, os ydych yn defnyddio gwahanol ddulliau ar gyfer gwahanol bobl mae'n bosibl na ellir cymharu'r canlyniadau yn uniongyrchol.
2. **Sut fyddwch chi'n dadansoddi'r data?**  
Mae arolygon papur yn hawdd i'w gweinyddu ond gall pobl gael anhawster i ddilyn cyfarwyddiadau; weithiau byddant yn ticio nifer o flychau pan ddylent roi tic mewn un yn unig, ac ati. Mewn arolwg ar-lein gall y cyfarwyddiadau fod wedi'u hymwreiddio fel ei bod yn anodd i bobl wneud camgymeriad. Hefyd, os yw'r

arolwg yn cael ei gwblhau ar-lein, does dim rhaid i chi fewnbynnu'r data â llaw (sy'n cymryd amser ac yn gallu arwain at gamgymeriadau).

3. **Sut allwch chi gynyddu nifer yr ymatebion?** Un mesur o ansawdd unrhyw ddata arolwg yw nifer y bobl sydd wedi'i gwblhau o'i gymharu â nifer y bobl y gofynnwyd iddynt ei gwblhau. Yn ddelfrydol, bydd pawb sy'n cael yr arolwg yn ei gwblhau. Gallwch sicrhau hyn drwy weinyddu'r arolwg tra mae pobl yn dal gyda chi, ond mae hyn yn golygu na fyddwch yn gweld yr effaith hirdymor. Yn lle hynny, gwnewch gynlluniau i anfon nodyn atgoffa at bobl ar ôl i chi eu gwahodd i gymryd rhan – mae tri nodyn atgoffa'n cael ei ystyried yn ymarfer da.

Byddech yn meddwl mai'r peth hawddaf yw defnyddio offer rydych yn gyfarwydd â hwy, ond mae rhaglenni / gwefannau arbenigol ar gyfer creu arolygon a all roi profiad gwell i gyfranogwyr ac a fydd yn creu set ddata well i chi ei defnyddio. Mae rhai o'r offer hyn yn ddi-dâl neu'n rhesymol. Mae rhai hyd yn oed yn eich galluogi i gynnal arolwg drwy neges destun.

Wrth edrych ar opsiynau, eu hymarferoldeb a pha mor hawdd ydynt i'w defnyddio, dylech hefyd ystyried telerau ac amodau'r darparwr

(nid yw rhai offer wedi'u cynllunio i'w defnyddio gyda phlant) a meddwl hefyd am GDPR a lle bydd y data'n cael eu cadw.

---

## Dadansoddi

Does dim angen i'r gwaith o ddadansoddi ymatebion eich arolwg fod yn gymhleth, ac os ydych yn rhoi'r data mewn rhaglen fel Excel gall wneud y rhan fwyaf o'r gwaith caled drosoch chi.

Ychydig o bethau i feddwl amdanynt:

- **Mewnbynnu eich data:** Os ydych wedi defnyddio papur a phensel, eich tasg gyntaf yw mewnbynnu'r data er mwyn i chi allu gweithio gyda'r data yn haws. Er mwyn gwneud hyn, bydd angen creu taenlen a chael un rhes i bob cyfranogwr. Meddylwch yn ofalus sut i osod y colofnau er mwyn gwneud eich dadansoddiad yn haws (e.e. os yw cyfranogwr yn gallu ticio nifer o atebion yna efallai y byddai'n syniad cael nifer o golofnau er mwyn cofnodi popeth maent wedi rhoi tic wrtho).
- **Glanhau eich data:** Cyn i chi ddechrau'r gwaith dadansoddi, gwnewch yn siŵr bod gennych set ddata lân. Mae hyn yn golygu gwirio nad oes data wedi'u dyblygu, gwneud yn siŵr bod y cwestiynau wedi cael eu hateb yn unol â'r disgwyl, sicrhau nad yw'r ymatebydd wedi ticio 'cytuno' ar gyfer popeth, ac ati.
- **Codio eich data:** Os ydych wedi gofyn unrhyw gwestiynau penagored, mae'n syniad da i ddarllen yr holl atebion ac yna eu 'codio' yn ôl thema er mwyn i chi allu cyfri'r ymatebion yn haws. Gall hyn gymryd amser, felly mae'n well peidio â chynnwys gormod o gwestiynau penagored.
- **Dechrau dadansoddi:** Yn aml mae'n haws gweld beth sy'n digwydd os ydych yn cynhyrchu cynrychioliadau gweledol o'r data. Fel arfer, os oes gennych lai na 100 o gyfranogwyr mae'n well adrodd rhifau crai yn hytrach na chanrannau, ond gallwch ddefnyddio siart bar wedi'i bentyrru neu siart cylch i'ch helpu i ddangos pa gyfran o'r bobl sydd wedi dweud rhywbeth. Os gwnaethoch ddefnyddio graddfa Likert, gallech gymharu sgôr gyfartalog y grŵp cyn ac ar ôl i weld a yw eu hyder wedi gwella.
- **Gwahaniaeth mewn gwahaniaeth:** Ffordd dda o ddangos effaith yw drwy gynnal cwis cyn ac ar ôl a gweld a yw pobl yn gwneud yn well wedyn. Mae'n well gwneud hyn drwy gymharu canlyniadau cyn ac ar ôl unigolion yn hytrach na cheisio ei wneud ar lefel grŵp, er mwyn i chi allu gweld pwy sydd wedi gwella a phwy sydd heb wella (mae rhywun bob amser yn mynd yn waeth!). Yn ddelfrydol, byddech yn cynnal yr un cwis â grŵp rheoli i weld os oedden nhw hefyd yn gwella wrth fynd yn eu blaenau.

# Arolwg enghreifftiol

Dyma enghraifft o arolwg, a grëwyd ar gyfer Clwb Ditectifs Digidol i'w gynulleidfa ei gwblhau cyn ac ar ôl cymryd rhan yn ei weithdai. Mae'n cynnwys enghreifftiau o'r mathau o gwestiynau y byddech yn hoffi eu gofyn i gyfranogwyr yn eich ymyriadau chi.

Sylwer: efallai y byddai'n werth codi cwestiynau o arolygon wedi'u paratoi'n barod sy'n addas ar gyfer y grŵp oedran rydych yn ei dargedu. Mae Ofcom yn cyhoeddi ei holl holiaduron yn llawn ynghyd â'i ganfyddiadau, felly gall [gwefan Ofcom](#) fod yn lle da i edrych am ysbrydoliaeth.

## Adran 1: Cyflwyniad a gwybodaeth gefndir

Dylai'r **cyflwyniad** amlinellu popeth y mae angen i bobl ei wybod er mwyn rhoi cydsyniad deallus. Mae hyn yn cynnwys dweud wrthynt pwy fydd yn gweld eu data, ar gyfer beth y defnyddir y data, dweud wrthynt y gallant dynnu'n ôl o'r arolwg unrhyw bryd (neu basio cwestiynau) a dweud wrthynt y gallant ofyn am gael tynnu eu data o'r gwerthusiad (ond os yw'r data'n cael eu casglu yn ddiennw efallai na fydd modd gwneud hyn).

Gan ddibynnu pa gwestiynau rydych yn eu gofyn, efallai y byddech hefyd yn hoffi cynnwys gwybodaeth am unrhyw fesurau diogelu sydd yn eu lle – er enghraifft, os bydd rhywun yn dweud rhywbeth wrthynt sy'n achosi i chi boeni amdano, a fydd hyn yn cychwyn unrhyw gamau?

Nod yr adran **gwybodaeth gefndir** yw cael data sy'n caniatáu i chi weld a yw eich ymyriad yn gweithio'n well i rai pobl nag i eraill. Efallai y byddech yn hoffi cael gwybodaeth am oedran, rhywedd neu leoliad daearyddol cyfranogwyr (ond mae'n bosibl y bydd gennych ryw faint o wybodaeth yn barod.)

Efallai hefyd y byddech yn hoffi cynnwys ychydig o gwestiynau sy'n eich helpu i bennu statws economaidd-gymdeithasol, er enghraifft incwm y cartref, ond bydd hyn yn anodd os yw'r cyfranogwyr yn blant a phobl ifanc. Yn gyffredinol, mae'n well cadw cwestiynau mwy sensitif megis incwm neu ethnigrwydd tan ddiwedd yr arolwg gan eu bod yn gallu gwneud i bobl deimlo'n anghyfforddus.

### Enghraifft

Mae arnom eisiau sicrhau bod ein gweithdai yn hygyrch ac yn gynhwysol. Bydd dweud ychydig wrthym amdanoch chi eich hun yn ein helpu i sicrhau eu bod yn gweithio i bawb. Os byddwn yn canfod eu bod yn fwy defnyddiol i rai pobl na'i gilydd, gallwn wneud newidiadau er mwyn gwella hyn.

Ysgrifennwch y rhif adnabod a roddwyd i chi ar ddechrau'r gweithdy. Mae hyn yn ein galluogi i gyfateb eich atebion yn y gwahanol arolygon heb i chi orfod defnyddio eich enw. Pan fydd y gwerthusiad wedi'i gwblhau, byddwn yn dileu pob cofnod o bwy gafodd bob rhif adnabod fel bod y data yn gwbl ddiennw.

- Rhif adnabod:

Pa un o'r canlynol ydych chi? Dewiswch un opsiwn

- Dyn / bachgen
- Menyw / merch

- Anneuaidd
- Gwell gennyf ddefnyddio term arall (rhowch fanylion os gwelwch yn dda - dewisol)
- Gwell gennyf beidio â dweud

**(Ar ôl gweithdy yn unig)** Ym mha weithgaredd(au) y gwnaethoch chi gymryd rhan?

- Gweithdy
- Gwyllo fideo ar y cyfryngau cymdeithasol
- Arall (rhowch fanylion os gwelwch yn dda)

## Adran 2: Eich meddyliau am dwyllwbyodaeth, camwbyodaeth a chynnwys ar-lein

Mae'r adran hon yn ceisio gofyn cwestiynau sy'n gysylltiedig â'r canlyniadau dymunol a nodwyd yn y fframwaith gwerthuso. Y canlyniadau dymunol ar gyfer y Clwb Ditectifs Digidol:

- Gwelliant yn y gallu i ganfod camwbyodaeth (yn cael ei asesu drwy gwis ar ddechrau ac ar ddiwedd y gweithdy).

- Gwell dealltwriaeth o sut mae ecosystem y cyfryngau digidol yn gweithio.
- Deall sut y cynhyrchir cynnwys ar-lein wedi'i wirio a sut i'w adnabod, a sut i adnabod cynnwys hysbysebu ar-lein.

Yma, dylech ofyn cwestiynau â chysylltiad agos cyn ac ar ôl yr ymyriad, er mwyn gweld a yw'n debygol bod eich ymyriad wedi newid gwybodaeth, sgiliau neu agweddau eich cyfranogwyr..

### Enghraifft

**(Cyn gweithdy yn unig)** Cyn y gweithdy, hoffem ofyn ychydig o gwestiynau i chi. Byddwn yn gofyn cwestiynau tebyg i chi ar ôl y gweithdy i weld a oes rhywbeth wedi newid. Byddwch mor onest ag sy'n bosibl wrth ateb.

**(Ar ôl gweithdy yn unig)** Hoffem ofyn ychydig bach mwy o gwestiynau i chi am gynnwys ar-lein. Byddwch mor onest ag sy'n bosibl wrth ateb.

Mae'r cwestiynau a ganlyn yn defnyddio system raddio sy'n cael ei defnyddio fel arfer mewn holiaduron neu arolygon i asesu agweddau, canfyddiadau neu farn pobl, sef graddfa Likert. Codwyd y cwestiynau isod o arolygon a gyhoeddwyd gan Ofcom, felly gallwch gymharu canlyniadau eich cyfranogwyr â'r cyhoedd yn gyffredinol. Fodd bynnag, ni fydd pob un o'r cwestiynau hyn yn berthnasol i'ch ymyriad chi.

Mae'n ymarfer da i gynnwys opsiwn 'ddim yn gwybod'. Weithiau mae arolygon yn hepgor yr opsiwn yma tua hanner ffordd drwodd er mwyn gorfodi cyfranogwyr i fynegi barn.

Mae'n werth rhifo'r opsiynau ymateb (e.e. gallai 'cytuno'n gryf' fod yn 5, a gallai 'anghytuno'n gryf' fod yn 1), gan fod hyn yn eich helpu i ddadansoddi a dehongli'r data.

Gall holi ynglŷn â hyder fod yn ddefnyddiol iawn gan ei fod yn eich galluogi i gymharu hyder pobl â gwir lefelau eu gwybodaeth mewn agweddau penodol ar lythrennedd cyfryngau, gan eich galluogi i weld bylchau rhwng y ddau.

## Enghraifft

Pa mor hyderus ydych chi y gallwch adnabod beth sy'n hysbysebu a beth sydd ddim yn hysbysebu, pan fyddwch yn gweld neu'n darllen pethau ar-lein? Dewiswch un opsiwn

- Hyderus iawn: 1
- Gweddol hyderus: 2
- Ddim yn hyderus nac yn ddihyder: 3
- Ddim yn hyderus iawn: 4
- Ddim yn hyderus o gwbl: 5
- Ddim yn gwybod

Pa mor hyderus ydych chi wrth farnu a yw'r wybodaeth rydych yn ei gweld neu'n ei darllen ar-lein yn gywir neu'n anghywir? Dewiswch un opsiwn

- Hyderus iawn: 1
- Gweddol hyderus: 2
- Ddim yn hyderus nac yn ddihyder: 3
- Ddim yn hyderus iawn: 4
- Ddim yn hyderus o gwbl: 5
- Ddim yn gwybod

Pan fyddwch yn defnyddio peiriant chwilio i ddod o hyd i wybodaeth, rydych yn rhoi cwestiwn yn y blwch chwilio yna bydd y peiriant chwilio yn dangos ychydig o ddolenni i wefannau yn y tudalennau canlyniadau. Pa un o'r rhain yw'r un agosaf at eich barn chi ynglŷn â lefel cywirdeb neu duedd y wybodaeth yn y gwefannau sy'n ymddangos yn y tudalennau canlyniadau? Dewiswch un opsiwn:

- Rydw i'n meddwl os ydynt wedi cael eu rhestru gan y peiriant chwilio, y bydd y gwefannau hyn yn cynnwys gwybodaeth gywir a diduedd.
- Rydw i'n meddwl y bydd rhai o'r gwefannau yn gywir neu'n diduedd, ond nid pob un.
- Fydda i ddim yn meddwl ydyn nhw'n cynnwys gwybodaeth gywir neu diduedd. Rydw i'n defnyddio'r safleoedd rydw i'n hoffi eu golwg.
- Ddim yn gwybod.

Yn y cwestiynau uchod, rhoddodd y cyfranogwyr un ateb, sy'n golygu ei bod yn haws cymharu eu hatebion â chyfranogwyr eraill. Efallai hefyd y byddech yn hoffi gofyn

cwestiynau lle gallant roi tic ar gyfer mwy nag un ateb, ond cofiwch ei bod yn anos cymharu'r rhain, er eu bod yn dal yn haws i'w dadansoddi na chwestiynau testun rhydd.

## Enghraifft

Os ydych yn dod ar draws honiadau y mae rhai pobl yn eu gwneud, y gellid ystyried eu bod yn anghywir neu'n gamarweiniol, beth (os unrhyw beth) rydych / fyddwch chi'n ei wneud ar ôl eu gweld?

- Eu hanfon ymlaen/rhannu â phobl rydw i'n eu hadnabod.
- Defnyddio safle neu offer gwirio ffeithiau.
- Defnyddio awgrymiadau o'r cyfryngau, er enghraifft gwefan y BBC.
- Holi teulu a ffrindiau a yw'r wybodaeth yn gamarweiniol.
- Gofyn i'r person wnaeth anfon/rhannu'r wybodaeth â mi a yw'n gywir.
- Blocio'r wybodaeth neu ei riportio i blatfform cyfryngau cymdeithasol.
- Arall (rhowch fanylion os gwelwch yn dda).
- Gwneud dim.



### Adran 3: Effaith wedi'i hunan-adrodd / canlyniadau anfwriadol

Yn ogystal â holi ynglŷn â'r pethau rydych yn disgwyl i'ch ymyriad eu newid, efallai hefyd y byddech yn hoffi gofyn am fwy o wybodaeth am effeithiau eraill (neu ganlyniadau anfwriadol) ac a yw'r cyfranogwyr eu hunain yn priodoli'r rhain i gymryd rhan yn yr ymyriad.

Mae'r cwestiwn a ganlyn yn gwestiwn testun rhydd, sy'n caniatáu i gyfranogwyr ysgrifennu

beth bynnag y maent yn dymuno ei ysgrifennu. Mae testun rhydd yn darparu data naratif, sy'n cymryd mwy o amser i'w ddadansoddi, felly nid ydym yn argymhell cynnwys gormod o'r cwestiynau hyn. Ond gall rhoi cyfle i gyfranogwyr fynegi eu hunain fel hyn ddarparu dealltwriaeth fanylach yn ogystal â chanlyniadau annisgwyl.


#### Enghraifft

**(Cyn gweithdy yn unig)** Rhowch wybod i ni am unrhyw newidiadau eraill yn eich agwedd at gynnwys ar-lein sydd wedi digwydd ers i chi fod yn y gweithdy.

[Testun rhydd]

**(Ar ôl gweithdy yn unig)** Faint o'r newid rydych wedi sôn amdano, os o gwbl, sydd wedi digwydd yn eich barn chi o ganlyniad i fod yn y gweithdy?

- Dim
- Rhywfaint
- Tua hanner
- Y rhan fwyaf
- Y cyfan



## Adran 4: Prawf gwrthrychol o sgiliau / gwybodaeth


Mae'r cwestiynau uchod yn canfod sut mae'r gweithdy wedi gwneud i bobl deimlo am eu sgiliau, ac mae hyn yn bwysig. Fodd bynnag, efallai na fydd hyn yn rhoi darlun cywir i ddangos a oedd eich ymyriad yn llwyddiant. Er enghraifft, beth pe bai rhywun yn dod i'r gweithdy yn orhyderus yn ei sgiliau ac yn gadael â dealltwriaeth fwy realistig? Gallai ei atebion i'r cwestiynau uchod ddangos lleihad mewn hyder, ond mae'r ail fesur yn debygol o fod yn well adlewyrchiad o'i sgiliau go iawn. O ganlyniad, gall fod yn fuddiol gofyn cwestiynau sy'n gwirio'n uniongyrchol a yw pobl wedi deall, ac yn gallu defnyddio, y sgiliau newydd a ddysgwyd iddynt.

Fel o'r blaen, mae gofyn cwestiwn testun rhydd yn osgoi rhoi'r atebion i'r cyfranogwr, ond mae'n golygu eich bod yn gorfod treulio mwy o amser yn dadansoddi ac yn penderfynu pa atebion oedd yn gywir neu'n anghywir. Neu, gallwch ofyn cwestiwn dilynol sy'n gofyn i gyfranogwyr pa rai o'r atebion wedi'u codio ymlaen llaw sy'n dod agosaf at yr hyn y gwnaethant ddweud y byddent yn ei wneud, fel eu bod yn gwneud rhywfaint o'r gwaith hwn i chi. Os ydych yn defnyddio'r dull yma, dylech gynnwys atebion 'cywir' ac 'anghywir' er mwyn i chi allu dweud a yw pobl yn deall o ddifri beth sy'n bwysig.

### Enghraifft

Mae bachgen/ merch n oed o'r enw Eddie/ Ellie wedi defnyddio Google i chwilio am esgidiau ymarfer i blant – roedd canlyniadau'r chwiliad yn edrych fel hyn: Edrychwch ar y pedwar canlyniad uchaf. Ydych chi'n gwybod pam y mae'r rhain yn dod gyntaf?

- Hysbysebion yw'r rhain/ maen nhw wedi talu i gael bod yma
- Dyma'r canlyniadau gorau
- Dyma'r canlyniadau mwyaf poblogaidd
- Unrhyw beth arall
- Ddim yn gwybod



---

## Adran 5: Adborth

Mae adran adborth mewn arolwg ar ôl ymyriad yn rhoi cyfle i ddysgu mwy am brofiad cyfranogwyr, pa effaith y mae wedi ei gael (yn eu geiriau eu hunain) a sut y gellir ei wella.

Yn ddelfrydol, dylai'r holiadur cyfan gymryd 10 munud neu lai i'w gwblhau. Os ydych yn gwneud llawer o weithdai a bod gennych yr opsiwn i'w newid dros gyfnod efallai y byddech yn hoffi cynnwys cwestiynau manylach ynglŷn â chyflwyniad y gweithdy, er enghraifft a yw'r cyfranogwyr yn cytuno neu'n anghytuno bod cyflymder y gweithdy, cynnwys / pynciau'r gweithdy, y defnydd o ymarferion yn y gweithdy, ac ati, yn briodol.

### Example

**(Ar ôl gweithdy yn unig)** Mae gennym ddiddordeb mawr mewn gwybod ynglŷn â'ch profiad o'r gweithdy, er mwyn i ni allu gwneud gwelliannau lle bo angen.

Pa mor debygol ydych chi, os o gwbl, i argymhell y cwrs yma i ffrind sydd â sgiliau ar-lein tebyg i chi?

1. Annhebygol iawn
2. Braidd yn annhebygol
3. Ddim yn annhebygol nac yn debygol
4. Eithaf tebygol
5. Tebygol iawn

Beth, os unrhyw beth, wnaethoch chi ei fwynhau'n arbennig am y gweithdy?

[Testun rhydd]

Beth, os unrhyw beth, oedd fwyaf defnyddiol i chi?

- Sesiwn 1 – Cyflwyniadau
- Sesiwn 2 – Cyflwyniad i lythrennedd cyfryngau
- Sesiwn 3 – Cwestiynau ac atebion
- Sesiwn 4 – Cymhwyso'r hyn rydym wedi ei ddysgu
- Sesiwn 5 – Myfyrdodau

Beth y gellid ei wella ynglŷn â'r profiad o'r gweithdy?

[Testun rhydd]

A oes rhywbeth arall y byddech yn hoffi ei ddweud wrthym?

[Testun rhydd]

# Pethau i'w gwneud a phethau i beidio â'u gwneud

---

## Pethau i'w gwneud:

- Cael cydsyniad eich cyfranogwyr i gymryd rhan yn yr arolwg.
- Meddwl am y wybodaeth ddemograffig a fyddai'n ddefnyddiol at ddibenion dadansoddi, a dim ond gofyn am yr hyn y mae arnoch ei angen.
- Cael mesur gwaelodlin a chanfod ffordd o gysylltu ymatebion cyn ac ar ôl ymyriad eich cyfranogwyr. Yn ddelfrydol, peidiwch â defnyddio eu henwau, fel na fydd rhywun sy'n edrych ar y set ddata yn gwybod yn syth pwy sydd wedi dweud beth.
- Cysylltu pob cwestiwn â chanlyniad o ddiddordeb.
- Egluro wrth eich cyfranogwyr nad ydynt yn cael eu 'profi' (yn enwedig pan fyddwch yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc).
- Meddwl sut y byddwch yn gwneud y dadansoddiad cyn i chi ddechrau cynllunio'r holiaduron cyn ac ar ôl ymyriad er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio gyda'i gilydd a'ch bod yn casglu'r data y mae arnoch eu hangen.
- Os ydych yn cynnwys prawf o wybodaeth/sgiliau, meddyliwch a ddylech ofyn yr un cwestiynau yn union cyn ac ar ôl (oherwydd gallai'r cyfranogwyr drafod eu hatebion gyda'i gilydd yn ystod y sesiwn)

---

## Pethau i beidio â'u gwneud:

- Gofyn cwestiynau arweiniol neu gynnwys tybiaethau yn eich cwestiynau (gweler yr enghraifft isod).
- Gwneud yr arolwg yn rhy hir, gan y bydd hyn yn cadw llawer o gynulleidfaoedd draw, yn enwedig plant ac eraill a allai gymryd mwy o amser i ddehongli cwestiynau a meddwl am atebion. Bydd hefyd yn amharu ar ansawdd y data a gewch yn ôl.
- Gwneud newidiadau diangen i'r cwestiynau rhwng arolwg cyn ac ar ôl ymyriad, gan eich bod eisiau gallu eu defnyddio ar gyfer cymharu.
- Mynnu bod pobl yn defnyddio eu henwau go iawn os ydynt yn teimlo'n anghyfforddus yn gwneud hynny.
- Storio data arolwg ag enwau neu fanylion cysylltu pobl ynghlwm wrthynt. Os oes arnoch angen cadw'r rhain, gwnewch hynny mewn ffeil ar wahân wedi'i hamgryptio a'i diogelu â chyfrinair, a defnyddiwch god adnabod unigryw os oes angen i chi gysylltu'r ddau.